

## CYLCH MEITHRIN Y FELINHELI POLISI DERBYN

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

### NOD

Ein nod ni yng Nghylch Meithrin Y Felinheli yw cynnig gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn o fewn yr oedran priodol, yn unol â'n Polisi Derbyn.

### EGWYDDOR

Mae croeso i bob plentyn sydd o fewn yr oedran priodol fynychu'r Cylch, beth bynnag fo'i anghenion, lliw, hil, iaith, crefydd, dosbarth cymdeithasol neu sefyllfa deuluol.

### COD YMARFER

Bydd y Cylch yn cydymffurfio â'r amodau cofrestru fel y nodir yn y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 parthed oed y plant a'r nifer a ganiateir.

Bydd y Pwyllgor yn mabwysiadu a gweithredu meini prawf derbyn addas ar gyfer y Cylch. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu'r meini prawf hyn bydd y Pwyllgor yn sicrhau nad yw yn mynd yn groes i'w Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae'r Cylch yn derbyn plant fel a ganlyn -

- Oedran – Oedran cychwyn yw 2½ mlwydd oed
- Adegau Derbyn – Caiff plentyn gychwyn unwaith mae'n ddwy a hanner, unrhyw adeg yn ystod y tymor/flwyddyn gyda threfniant a chaniatâd yr Arweinydd, yn dilyn derbyn y ffurflen gofrestru briodol.
- Dalgylch – Croeso i blant pentref Felinheli a'r dalgylch.
- Dyddiau ac Amseroedd – Mae'r Cylch ar agor 10:45 – 3:30 dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgolion Gwynedd.
  - Sesiwn i blant 2½ hyd oedran ysgol am 1:30 – 3:30.
  - Sesiwn i blant oed dosbarth meithrin (3+ oed cyn mis Medi) 10:45 – 1:00 neu 10:45 – 3:30
- Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid gofrestru eu plentyn pan fydd yn dechrau yn y Cylch trwy ddefnyddio ffurflenni cofrestru'r Cylch.

Mae'r Pwyllgor yn annog rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i sicrhau lle i'w plentyn ddigon ymlaen llaw, ac fe'u gwahoddir i ymweld â'r Cylch gyda'u plentyn cyn y ddyddiad dechrau. Byddwn yn trefnu diwrnod agored/cofrestru er mwyn annog rhieni/gofalwyr/gwarchodwyr gofrestru mewn da bryd.



Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i wrthod cais rhiant/gofalwr/gwarcheidwad am le i blentyn nad yw'n cydymffurfio â'r amodau derbyn. Mewn achosion o'r fath, cyflwynir y rhesymau i'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

Ni chaniateir mwy na 19 o blant mewn unrhyw sesiwn.